Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 10 Chwefror 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid Ysgolion Cynradd

Diolchwn i chi am y gefnogaeth yr ydych wedi'i rhoi i'n hysgolion yn gynnar yn 2021. Mae wedi bod yn gyfnod heriol wrth i ysgolion jyglo gyda dysgu ar y safle ac oddi ar y safle. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu wedi gwneud eu gorau i addasu i wahanol ffyrdd o weithio ac i barhau i ddysgu.

Gwnaed llawer o gymariaethau rhwng ysgolion ar beth yw'r cynnig dysgu, beth ddylai fod a hyd yn oed sut y gallai fod mewn byd delfrydol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi ei gwneud hi'n hawdd cymharu ysgolion ond nid mor hawdd gweld yr ymdrechion sy'n gysylltiedig â gweithio mewn byd rhithwir. Nid yw hyn wedi bod yn hawdd i neb ond mae ysgolion ac athrawon unwaith eto wedi ymateb i'r her gyda phroffesiynoldeb a gwydnwch.

Yn anffodus, rydym yn dal i weithredu mewn cyfnod digynsail ac mae pob ysgol wedi ceisio diwallu anghenion ei chymuned drwy wella'r cynnig dysgu yn barhaus. Rwy'n falch iawn bod ein hysgolion wedi dilyn ein harweiniad ar gyfer parhad dysgu ac wedi gwneud eu gorau o dan yr amgylchiadau yr ydym yn eu cael ein hunain ynddynt. Erbyn hyn mae rhywfaint o obaith y bydd y misoedd nesaf yn dechrau gweld dychwelyd graddol a gofalus i'r ysgol. Ar ôl hanner tymor, bydd tair blaenoriaeth i ysgolion cynradd, a bydd ysgolion yn mynd i'r afael â hwy yn y drefn ganlynol:

1. Addysgu a chadw plant 3-7 oed o’r Meithrin i flwyddyn 2 ar y safle
2. Addysgu blynyddoedd 3 i flynyddoedd 6 oddi ar y safle
3. Dysgu ar y safle i blant bregus/gweithwyr critigol ym mlynyddoedd 3 i flynyddoedd 6 dim ond lle bo hynny'n hanfodol

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 22 Chwefror bydd dychwelyd hyblyg i'r ysgol i blant yn y cyfnod sylfaen, sef Meithrin i flwyddyn 2, ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion arbennig a'r uned cyfeirio disgyblion. Yn Abertawe, bydd penaethiaid yn defnyddio'r dydd Llun a dydd Mawrth cyntaf (22 Chwefror a 23 Chwefror) fel diwrnodau cynllunio, ac ar ôl hynny bydd pob grŵp blwyddyn cyfnod sylfaen yn dechrau dychwelyd erbyn dydd Gwener 26 Chwefror. Byddwn yn anelu at weithio i'r llinell amser hon ond byddwch yn amyneddgar os oes angen mwy o amser ar eich ysgol i baratoi. Dylech gysylltu â'ch ysgol i gadarnhau a oes rhesymau pam na all eich plentyn ddechrau'n ôl ar ei ddyddiad penodol. Ni fydd dysgu ar-lein yn cael ei gynnig i'ch plentyn ar ôl hanner tymor.

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â’r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Rhwng 24 Chwefror a 26 Chwefror, bydd gofyn i'ch plentyn ddod â phecyn bwyd i'r ysgol. O'r wythnos sy'n dechrau ar 1 Mawrth, bydd plant y Derbyn i flwyddyn 2 yn dechrau derbyn pryd poeth yn yr ysgol eto. Cofiwch sicrhau bod eich cyfrif sQuid wedi ei ariannu. Ni ddarperir taliadau/parseli prydau ysgol am ddim i blant y cyfnod sylfaen ar ôl 26 Chwefror (dylai'r taliad olaf fod mewn cyfrifon banc erbyn dydd Gwener 12 Chwefror i gwmpasu'r cyfnod hyd at 26 Chwefror, a bydd y parsel bwyd pythefnos olaf yn cael ei ddosbarthu ddydd Llun 15 Chwefror)

Bydd ystafelloedd dosbarth yn cynnig cymaint o awyru â phosibl a bydd llawer o'r dysgu'n digwydd yn yr awyr agored, felly cofiwch anfon eich plentyn i'r ysgol gyda chôt a siwmper. Ond dylech osgoi anfon unrhyw eitemau diangen, a chadwch y rhain i eitemau hanfodol e.e. bocs bwyd yn unig.

I blant gweithwyr hanfodol ym mlynyddoedd 3 i flwyddyn 6, mae'r neges yn aros yr un fath ar hyn o bryd, sef, mae'n fwy diogel aros gartref, os yw'n bosibl. Fodd bynnag, bydd dysgu ar y safle yn dal i gael ei gynnig i'r rhai sydd ei angen yn hytrach na'r rhai sydd am ei gael. O 23 Chwefror, efallai na fydd digon o staff i ddarparu'r un lefelau o ddysgu ar y safle ar gyfer blynyddoedd 3-6 gan y canolbwyntir ar addysgu grwpiau blwyddyn cyfnod sylfaen. Peidiwch â bod yn siomedig os na all eich ysgol gynnig yr un lefel o ddysgu ar y safle ag a wnaeth cyn hanner tymor. Er mwyn helpu gyda symud i swigod eu dosbarthiadau ni fydd darpariaeth mewn ysgolion ar gyfer unrhyw ddysgwr ysgol gynradd ar 22 Chwefror a dim ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen ar 23 Chwefror.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar i rieni a disgyblion fel ei gilydd sydd wedi dilyn rheolau a rheoliadau'r cyhoedd ac ysgolion er mwyn cadw'n ddiogel. Mae ymdrechion pawb wedi talu ar ei ganfed ac mae trosglwyddo Covid-19 yn y gymuned yn amlwg yn gostwng. Ar hyn o bryd, mae pryder, unwaith y bydd y disgyblion iau yn mynd yn ôl, y gallem weld trosglwyddo Covid-19 yn y gymuned yn cynyddu unwaith eto. Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig yw ein bod i gyd yn dal i gadw at y rheolau fel y gallwn ganolbwyntio ar addysgu ein plant 3-7 oed. Rhaid i bob rhiant ac ymwelydd â safleoedd ysgol wisgo gorchudd wyneb. Dylai rhieni hefyd osgoi ymgasglu wrth giât yr ysgol a dylent gyrraedd mor agos ag y gallant at eu hamser gollwng/casglu y cytunwyd arno.

Deallaf fod pwysau sylweddol ar staff mewn ysgolion ac yr wyf yn falch y bydd yr wythnos sy'n dechrau ar 15 Chwefror yn wythnos hanner tymor arferol. Yn yr un ffordd, rwy'n deall y pwysau ar deuluoedd felly mae'n newyddion da y bydd ysgolion yn agor eto i'r plant iau sy'n ei chael hi'n anodd gweithio ar-lein.

Mae gan ysgolion yn Abertawe asesiadau risg ar waith a fydd yn canolbwyntio ar addysgu plant 3-7 oed yn eu swigod dosbarth. Mae hyn yn golygu y dylid osgoi clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast ac unrhyw weithgaredd sy'n cymysgu swigod mewn ysgolion. Nid yw ein penaethiaid am gael dim mwy na gweld dychwelyd i addysg yn ddiogel. Helpwch ni drwy sicrhau ymbellhau cymdeithasol, meddwl ddwywaith cyn rhannu lifftiau i ysgolion, dal partïon, rhannu gofal plant, cymysgu ar y ffordd i'r ysgol, tra ar safle'r ysgol neu wedyn. Gweithredwch yn gyfrifol gan y gallai peidio â gwneud hynny beryglu'r dychwelyd i'r ysgol am weddill tymor y gwanwyn.

Bydd cludiant ar gyfer disgyblion cymwys y cyfnod sylfaen, gan gynnwys cludiant ADY, ar gael o 24 Chwefror. Rhowch wybod i'ch ysgol ar unwaith os nad ydych yn bwriadu anfon eich plentyn/plant yn ôl i'r ysgol fel bod swyddogion cludiant yn gwybod cyn gynted â phosibl pa gludiant sydd ei angen ar ôl yr egwyl hanner tymor.

Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad parhaus i geisio sicrhau bod ein plant, ein staff a'n teuluoedd yn cael eu cadw'n ddiogel. Bydd llai o achosion yn y gymuned yn golygu llai o achosion mewn ysgolion, a bydd hyn yn magu hyder ein bod yn dechrau gwella. Gofynnwn yn gwrtais i chi sicrhau bod eich plentyn yn cyfyngu ar ei gyswllt yn eich cymuned ac yn parchu'r cyngor ynghylch golchi dwylo, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb.

I grynhoi:

- Yr wythnos yn dechrau Chwefror 15 yw hanner tymor
- Bydd dydd Llun (22 Chwefror) a dydd Mawrth (23 Chwefror) yn cael ei ddefnyddio fel diwrnodau cynllunio yn Abertawe
- Bydd dysgu ar y safle i blant gweithwyr hanfodol yn Bl3-6 ar gael o 23 Chwefror
- Dim dysgu ar y safle ar gael i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen cyn dychwelyd er mwyn osgoi cymysgu grwpiau cyswllt yr wythnos sy'n dechrau 22 Chwefror
- Mae angen dod â phecynnau cinio i mewn rhwng 24 Chwefror a 26 Chwefror

Gobeithio y gallwn i gyd weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein hysgolion a sicrhau y gallwn fwynhau dychwelyd i addysg yn ofalus.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

Cyngor Abertawe
Swansea Council